# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 05/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Blaenoriaethau Portffolio

**C9 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei blaenoriaethau portffolio ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1050(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf yn parhau'n ymroddedig i gyflawni fy amcanion yng nghytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio tuag at gyflawni diwydiannau ffermio, fforestydd, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy er budd Cymru a chymunedau gwledig.

### Difa Moch Daear

**C10 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau i ddifa moch daear yng Nghymru? OAQ(3)1038(RAF)

**Elin Jones:** Erbyn hyn, mae contractwyr yn eu lle ac yn cael eu hyfforddi i'r safonau priodol er mwyn rhoi polisi cydgysylltiedig ac effeithiol ar waith. Mae arolwg o'r brochfeydd ar dir yn yr ardal beilot yn parhau. Bydd y gwaith yn yr ardal beilot yn dechrau pan fydd yn briodol a dim ond pan fydd popeth wedi'i baratoi.

*Tynnwyd cwestiynau 11, OAQ(3)1030(RAF), a 12, OAQ(3)1053(RAF), yn ôl*

### Diogelwch Bwyd

**C13 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer diogelwch bwyd? OAQ(3)1048(RAF)

**Elin Jones:** Mae'r ddogfen 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad' yn amlinellu fframwaith strategol y Llywodraeth ar gyfer diwydiant amaethyddol cynaliadwy a phroffidiol. Yn ei hanfod, ymwneud â bwyd a chynhyrchu bwyd y mae ffermio. Drwy sicrhau bod cynllun y taliad sengl yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn amserol, byddwn yn gallu sicrhau bod ein ffermwyr yn cael cymhorthdal incwm hanfodol, a sylfaen gadarn i'w cynorthwyo i gynllunio ar gyfer eu lefelau cynhyrchu presennol a'u lefelau cynhyrchu yn y dyfodol.

### Ffermio Cennin Pedr

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffermio cennin Pedr? OAQ(3)1041(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gefnogi ffermio cennin pedr yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu blodau i'w torri, cynhyrchu bylbiau ac, yn fwy diweddar, y potensial i gynhyrchu cynhyrchion fferyllol.

### Cymuned Amaeth

**C15 Angela Burns:** Pa gamau mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y gymuned amaethu yn ffynnu yng Nghymru? OAQ(3)1032(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn parhau'n ymroddedig i gyflawni fy amcanion yn nogfen 'Cymru'n Un' drwy weithio i gyflenwi diwydiannau ffermio, godro a bwyd sy'n gynaliadwy ac yr wyf yn gwbl ymrwymedig i fwrw ymlaen gyda'r strategaeth ffermio, bwyd a chefn gwlad a rhoi cynllun ar waith i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio yng Nghymru**.**

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Strategaeth Swyddi Gwyrdd

**C9 Lorraine Barrett :** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Swyddi Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1253(ESH) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae rhan gyntaf y strategaeth, sef darparu gwasanaeth amgylcheddol/cynaliadwy drwy Gymorth Hyblyg i Fusnes, yn ei lle. Yr ydym yn gwneud cynnydd gyda gweithgareddau eraill hefyd, sef rhaglen arloesi i fusnesau gwerth £35 miliwn a llunio ardal economaidd carbon isel sy'n canolbwyntio ar dechnolegau sy'n defnyddio hydrogen a thanwydd amgen.

### Blaenoriaethau Portffolio

**C10 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei blaenoriaethau portffolio ar gyfer y chwe mis nesaf? OAQ(3)1262(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf fydd cyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a blaenoriaethau strategol eraill ar gyfer Cymru. Maent yn cynnwys y newid yn yr hinsawdd, rheoli perygl llifogydd, gwastraff, bioamrywiaeth a chynllunio a fydd yn cael eu fframio gan ddatblygu cynaliadwy, sef prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth hon.

### Gorsafoedd Pŵer Biomas

**C11 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gorsafoedd pŵer biomas? OAQ(3)1232(ESH)

**Jane Davidson:** Mae dyheadau Llywodraeth y Cynulliad o ran ynni adnewyddadwy yn cefnogi cyfuniad o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys defnyddio ynni biomas mewn gorsafoedd pŵer. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gorsafoedd pŵer o'r fath yn cael eu rheoleiddio'n gywir a bod y tanwydd a ddefnyddir i'w rhedeg yn deillio o ffynonellau cynaliadwy.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ(3)1268(ESH), yn ôl.*

### Datblygiadau Eco-Dai

**C13 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer datblygiadau eco-dai? OAQ(3)1269(ESH) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Yr ydym yn defnyddio arian o'r rhaglen grant tai cymdeithasol ar gyfer prosiect peilot i ystyried goblygiadau adeiladu tai newydd hyd at lefel 4 a 5 o'r cod tai cynaliadwy. Mae 18 o gynlluniau'n rhan o'r prosiect sy'n cael ei gynnal ar hyd a lled Cymru, a bydd 389 o gartrefi'n cael eu hadeiladu yn sgîl y prosiect.

*Tynnwyd cwestiynau 14, OAQ(3)1249(ESH), a 15, OAQ(3)1237(ESH), yn ôl*